



Teithiau Cerdded
Thematig Rhif 1

Taith Gerdded Eglwysi'r Dyffryn

Taith Gerdded Eglwysi'r Dyffryn Cip cyflym

Pellter

6 cilomedr

Amser

3 awr

Taith Gerdded Eglwysi'r Dyffryn

Gellir mwynhau golygfeydd godidog o Ddyffryn Tywi yn ystod y daith hon lle cewch eich boddi yn hanes a diwylliant tair eglwys ysblennydd.

Edrychwch am

Golygfeydd panoramig o Ddyffryn Tywi ar ei orau a'r adeiladau hanesyddol sy'n cynnig cip ar hanes a diwylliant yr ardal.

Cofiwch

Dilynwch yr arwyddion marcio llwybr. Cofiwch hefyd fod darnau cul o'r ffordd yn golygu y bydd rhaid ichi gerdded yn ofalus iawn oherwydd y traffig.

Sylwch

Nifer cyfyngedig iawn o leoedd parcio sydd ar gael ar ddechrau'r daith yn Llangathen. Gellir parcio yn Llandeilo a theithio ar y bws i Dderwen Fawr, sydd o fewn pellter cerdded hwylus i Eglwys Llangathen.

Dewch yn barod

Rydym yn argymhell fod gennych fap a chwmpawd a'r sgiliau i'w defnyddio, yn ogystal ag esgidiau a dillad addas ar gyfer cyflwr y tir a'r tywydd.



Y DAITH

1 Eglwys Llangathen

Mae'r daith yn cychwyn yn Eglwys Llangathen (Cyf Grid SN693256). Mae'r eglwys ei hun yn drysor pensaernïol, a gysegrwyd i Sant Cathen, y dywedir iddo fod yn frenin Dyfed a Brycheiniog yn 675. Mae ei thŵr cadarn o'r drydedd ganrif ar ddeg cystal ag unrhyw un yn Sir Gaerfyrddin, ac mae corff yr eglwys yn cynnwys tri chapel teuluol o'r canol oesoedd – Berllan Dywyll, Cadfan ac Aberglasne. Mae sawl coeden ywen hen iawn yn rhoi cysgod i'r fynwent.

Un o nodweddion mwyaf nodedig yr eglwys yw cofeb 'gwely' Rudd cain, a gwblhawyd yn 1616, ac y credir iddo fod 'y gorau mewn unrhyw eglwys bentref yng Nghymru'.



Mae'r olygfa banoramig o Ddyffryn Tywi yn wirioneddol hudol. Mae'n diffinio'r golygfeydd a ysbrydolodd ac a swynodd y John Dyer ifanc, bardd ac arlunydd, a fagwyd yn Aberglasne gerllaw. Gallwch weld Bryn Grongar gerllaw a roddodd iddo ei enw da.

Cerddwch tua'r dwyrain trwy'r pentref, ac mae pyrth a bylchau yn y clawdd yn datgelu golygfeydd hyfryd o Ddyffryn Tywi: castell Dinefwr yn ei sythu hi uwchben y coed, yr afon yn disgleirio wrth iddi droelli, y Mynydd Du a Beddau'r Derwyddon yn ddotiau ar y gorwel, Tŵr Paxton a Bannau Sir Gâr a Sir Frycheiniog, yn y pellter.

Croeswch y ffordd yng Nghilsane, a nant Myddyfi ger y bont droed gerllaw'r rhyd. Dilynwch y lôn nes ichi gyrraedd mynedfa fferm Penybanc. Yma, o'ch blaen, y mae cychwyn yr hawl tramwy cyhoeddus.

Os cerddwch yn lletraws i gornel uchaf bellaf y ddôl, fe welwch sticil bren a llwybr i'w ddilyn oddi yno gerllaw wal garreg y Parc Ceirw, trwy gatieu mochyn gan ddilyn y llwybr i'r chwith. Ewch yn eich blaen ar hyd y llwybr hwn, heibio Fferm Dinefwr nes ichi gyrraedd y brif rodfa i Dŷ Newton. Trowch i'r dde a dilynwch y llwybr nes ichi weld set o gatieu ar y chwith. Ewch drwy'r gatieu a dilynwch y llwybr ar y chwith ichi sy'n arwain i eglwys Llandyfeisant.

2 Eglwys Llandyfeisant

Cafodd, Llandyfeisant, a ddisgrifiwyd unwaith yn eglwys gadeiriol ar raddfa fechan, ei chysegru i Sant Tyfei, mab merthyredig chwaer Teilo Sant. Hi oedd eglwys deuluol Castell Dinefwr (Tŷ Newton) a gweithwyr y stad am ganrifoedd lawer.

Dywedir iddi gael ei chodi ar safle teml Rufeinig 'y dywedir y gorwedd seiliau'r ongl ogleddol arno'. Darganfuwyd waliau o wneuthuriad Rhufeinig wrth wastadau'r fynwent yn 1811, a thynnwyd pot o ddarnau arian Rhufeinig o'r ddaear tua 300 llath i ffwrdd. Mae carreg filltir Rufeinig o Drecastell wedi'i hadeiladu rywle yn wal y terfyn.

Erbyn hyn mae eglwys Llandyfeisant wedi'i dadgysegru, ond mae'n dal yn adeilad hardd a hudol.


Dilynwch y llwybr, yr honnir erbyn hyn ei fod yn ffordd Rufeinig, tuag at bont Llandeilo (neu dringwch y ddolen trwy goetiroedd hyfryd o ffawydd a choed cymysg i Barc Pen-lan). Wedi ichi gyrraedd Pont Llandeilo, trowch i'r chwith i fyni bryncyn braidd yn serth nes ichi gyrraedd Eglwys Teilo Sant ar y dde.

3 Eglwys Teilo Sant — eglwys y plwyf Llandeilo Fawr

Codwyd yr eglwys gerllaw safle sylfaen Geltaidd bwysig o'r 6ed ganrif a gysegrwyd i Deilo Sant, un o gyfoedion Dewi Sant. Mae dwy groes o'r 10fed ganrif wedi goroesi hyd heddiw; tŵr milwrol sgwâr sythlin o'r 13eg ganrif a thystiolaeth o Fedyddfa arbennig.

Yn 1848-50, roedd y Syr Giles Gilbert Scott yn gyfrifol am gynllunio'r gwaith o ailadeiladu'r eglwys. Yr adeiladydd lleol William Williams, oedd newydd gwblhau pont garreg bwa sengl hyfryd Llandeilo, oedd y contractwr adeiladu.

Mae'r tŵr yn gartref i arddangosiad digidol o Efengylau Llandeilo o'r 8fed ganrif, y cedwir y fersiwn wreiddiol ohonynt yn eglwys gadeiriol Caerlwytgoed.



Camu ymhellach i Ddyffryn Tywi

Mae Taith Gerdded Eglwysi'r Dyffryn yn un o gyfres o 6 thaith gerdded thematig a grëwyd i annog pobl i fwynhau Dyffryn Tywi. Gwnaed y teithiau cerdded yn bosib diolch i ffermwyr a thir berchnogion lleol a Phrosiect Tywi Afon yr Oesoedd sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth am unrhyw un o deithiau cerdded thematig Tywi Afon yr Oesoedd, ewch i

www.tywiafonyroesoedd.org.uk



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI